

cynnal+

# GWASANAETH SUL ADFERIAD

25 HYDREF 2020

## Defnydd



STAFELL FYW CAERDYDD  
YN AGOR Y DRWS I FYWYD NEWYDD  
LIVING ROOM CARDIFF  
OPENING THE DOOR TO A NEW LIFE



## **TREFN Y GWASANAETH:**

Cyflwyniad

Gweddi agoriadol

Emyn 1

Stori

Salm

Emyn 2

Myfyrdod

Emyn 3

## CYFLWYNIAD

Y mae adferiad yn thema sy'n cael ei hailadrodd ledled y Beibl, gan gynnig gobaith pan ymddengys nad oes gobaith. O lyfr Genesis i lyfr y Datguddiad, mae'r Beibl yn llawn o ddelweddau cyfoethog a straeon o iachâd ac adferiad - mae'n thema gyson sydd yn ailadrodd drwy hanes ac yr ydym ninnau hefyd heddiw'n sicr o fod yn parhau i gael profiadau o adferiad.

Rhan bwysig i unrhyw adferiad yw teimlo pwrpas a themlo'n ddefnyddiol a bod gwerth i'r hyn a wnawn a'n bod ni'n cydnabod ein bod yn werthfawr.

Yn ein gwasanaeth eleni rydym am fyfyrion ar y gair DEFNYDD. Byddwn yn myfyrion ar wahanol ystyron y gair - y defnydd yn ein dillad a'r defnyddiau sydd o'n cwmpas a'r weithred o ddefnyddio.

Fe ddechreuwn ni gyda gweddi:

## GWEDDI AGORIADOL

Dduw'r creawdwr, gwyddom i ti ein gwneud yn fodau cymhleth. Yn ein cyrff y mae milltiroedd o wythiennau, mae litrau o hylifau, mae yna drydan a chemegau sy'n tanio'r ymennydd, sy'n rheoli ein holl synhwyrau a'n hemosiynau ac y mae yna gyhyrau ac esgyrn sydd yn ein galluogi i godi a chario, i gerdded a rhedeg a neidio.

Ac y mae gyda ni galon. Calon yw symbol y byd o gariad a gwyddom, Dduw, y gall cariad effeithio ar bob rhan o'n corff mewn cymaint o wahanol ffyrdd.

Mae'r groes hefyd yn symbol o gariad. Y cariad a roddodd Iesu dy Fab i'r byd yn ddi-amod. Y cariad a ddangosodd trwy ei aberth drosom ni gyd.

Dduw'r achubwr, gad i ni gymryd amser yn y cyfnod hwn o addoliad, i ryfeddu ar ein gwneuthuriad ni fel unigolion, gan gydnabod ein bod yn gymhleth a bod hynny weithiau'n gallu dod â heriau. Gad i ni gydnabod ein gwendidau yma yn awr, gan ofyn yn daer am faddeuant ac am egni newydd i dderbyn bob her a ddaw i'n llwybr, ac i wybod dy fod gyda ni bob cam o'r ffordd.

Yn ein cymhlethdod, rho i ni symlrwydd.

Yn ein dryswch, rho i ni lwybr union.

Yn ein tywyllwch, rho i ni oleuni.

Yn ein diffeithwch, rho ddŵr i dorri syched.

Yn ein dirywiad, rho i ni adferiad.

Amen.

### *Emyn 1*

**742 – Arglwydd Iesu, gad i'm deimlo rhin anturiaeth fawr y groes.**

Wrth droedio llwybr bywyd ac wrth chwilio am ffyrdd o fod yn ddefnyddiol, weithiau fe wnawn ni weld pethau'n wahanol i eraill. Gadewch i ni ystyried stori'r costreli dŵr.

## STORI'R COSTRELI DŴR

(Gellir rhannu'r stori i'w hadrodd gan ddarllenwyr gwahanol.)

Roedd gan gludwr dŵr yn yr India ddwy gostrel fawr, yn hongian oddi ar ddau ben polyn a oedd yn gorffwys ar draws ei war. Roedd twll yn un o'r costreli tra bod y gostrel arall yn berffaith ac yn dosbarthu cyfran lawn o ddŵr bob tro. Ar ddiwedd y daith gerdded hir o'r nant i'r tŷ, roedd y gostrel gyda'r twll bob amser yn cyrraedd y tŷ'n hanner llawn.

Roedd gan yr un gyda'r twll gywilydd o'i hamherffeithrwydd ei hun, ac yn ddiflas ei bod wedi gallu cyflawni dim ond hanner yr hyn y bwriadwyd iddi ei wneud. Ar ôl dwy flynedd o deimlo'n fethiant chwerw, un diwrnod fe siaradodd â'r cludwr dŵr wrth y nant:

'Mae gen i gywilydd ohonof fy hun, ac rwyf am ymddiheuro i chi. Dim ond hanner y dŵr yr wyf wedi gallu ei gario oherwydd mae'r twll hwn yn fy ochr yn achosi i ddŵr ollwng yr holl ffordd yn ôl i'ch tŷ. Oherwydd fy niffygion, rhaid i chi wneud yr holl waith hwn, ac nid ydych yn cael gwerth llawn o'ch ymdrechion.'

Dywedodd y cludwr wrth y gostrel, 'A wnaethoch chi sylwi bod blodau ar eich ochr chi o'r llwybr ond nid ar ochr yr un arall? Mae

hynny oherwydd fy mod i'n gwybod erioed am eich diffyg, ac mi wnes i blannu hadau blodau ar eich ochr chi i'r llwybr, a phob dydd wrth gerdded yn ôl, rydych chi wedi eu dyfrio. Am ddwy flynedd rwyf wedi gallu dewis y blodau hardd hyn i addurno'r bwrdd. Oni bai am y diffyg, ni fyddai'r harddwch hwn yn bosibl i addurno'r tŷ.'

Mae'r gostrel ddŵr amherffaith yn debyg i nifer fawr ohonom a sut y gwelwn ein hunain a beth feddyliwn ni o'n gwaith a'n cyflawniadau ar hyd ein bywyd. Yr oedd y gostrel yn cymharu ei hun â'r llall wrth gwrs, o ran beth yr oedd yn ei gyflawni ar ddiwedd y daith, a heb ystyried beth yr oedd wedi ei gyflawni'n an-uniongyrchol o ganlyniad i – wel, nid twll ond nodwedd efallai?

Yn Siapan, mae yna arddull o drwsio crochenwaith sydd wedi torri o'r enw'r Kintsukuroi , lle defnyddir aur neu arian i drwsio llestr sydd wedi torri, gyda'r ddealltwriaeth bod y darn yn brydferthach ac yn fwy gwerthfawr o fod wedi ei dorri yn y lle cyntaf.

Nid oes angen i ni fod yn berffaith i Dduw ein defnyddio ni. Rydyn ni i gyd eisiau bod yn ddefnyddiol. Rydyn ni am i'n bywydau fod o werth ac mae cariad Duw yn ein galluogi ni i fod o werth ac yn werthfawr ar yr un pryd. Dyna'r aur a'r arian sydd yn medru ein trwsio ni a'n gwneud yn brydferthach ac yn fwy defnyddiol nag erioed! Fel y llestr yn Siapan.

## SALM

Y mae cydnabod ein hamherffeithrwydd i eraill yn her. Ond mae Duw yn ei weld drwy'r amser!

Yn ein salm y mae'r salmydd yn cydnabod bod Duw yn gwybod am bob peth, pob meddwl a phob gweithred a wnawn - y rhai bwriadol ac anfwriadol. Ac ydy, ar un ochr, y mae hynny'n gysyniad digon brawychus ac y mae'r salmydd yn cydnabod y braw hwnnw. Ond y mae yna ochr gysurlon hefyd i'r syniad hwn, gan ein bod yn hollol agored i olwg Duw a bod Duw yn barod i faddau, i'n caru ac i ddangos i ni fod ein gweithredoedd, er ein gwendidau, yn gallu cyfrannu prydferthwch i'n byd. Mae gan Dduw ddefnydd ar ein cyfer ni gyd!

Mae'r salm hefyd yn sôn am sut y'n gwnaed ni, sut y'n gweuwyd ni ac mae'n creu llun o ryfeddod Duw yn ei greadigaethau ac yn ei bresenoldeb cyson.

Gadewch i ni ddarllen yr adnodau gyda'n gilydd.

### **Darlleniad: Salm 139:1-18. Beibl.net**

O ARGLWYDD, rwyt ti'n fy archwilio i, ac yn gwybod popeth amdana i.

Ti'n gwybod pryd dw i'n eistedd ac yn codi;  
ti'n gwybod beth sydd ar fy meddwl i o bell.

Ti'n cadw golwg arna i yn teithio ac yn gorffwys;  
yn wir, ti'n gwybod am bopeth dw i'n wneud.

Ti'n gwybod beth dw i'n mynd i'w ddweud

cyn i mi agor fy ngheg, ARGLWYDD.  
Rwyd ti yna o'm blaen i a'r tu ôl i mi,  
mae dy law di arna i i'm hamddiffyn.  
Ti'n gwybod popeth amdana i! Mae tu hwnt i mi —  
mae'n ddirgelwch llwyr, mae'n ormod i mi ei ddeall.  
Ble alla i fynd oddi wrth dy Ysbryd?

I ble alla i ddianc oddi wrthot ti?  
Petawn i'n mynd i fyny i'r nefoedd, rwyd ti yno;  
petawn i'n gorwedd i lawr yn Annwn, dyna ti eto!  
Petawn i'n hedfan i ffwrdd gyda'r wawr  
ac yn mynd i fyw dros y môr,  
byddai dy law yno hefyd, i'm harwain;  
byddai dy law dde yn gafael yn dynn ynof fi.  
Petawn i'n gofyn i'r tywyllwch fy nghuddio,  
ac i'r golau o'm cwmpas droi yn nos,  
dydy hyd yn oed tywyllwch ddim yn dywyll i ti!

Mae'r nos yn olau fel y dydd i ti;  
mae goleuni a thywyllwch yr un fath!  
Ti greodd fy meddwl a'm teimladau;  
a'm plethu i yng nghroth fy mam.  
Dw i'n dy foli di,  
am fod dy waith di mor syfrdanol a rhyfeddol!  
Mae'r cwbl rwyd ti'n wneud yn anhygoel!  
Ti'n fy nabod i i'r dim!

Roedd det ti'n gweld fy ffrâm i



pan oeddwn i'n cael fy siapio yn y dirgel,  
ac yn cael fy ngweu at ei gilydd yn nyfnder y ddaear.  
Roeddet ti'n fy ngweld i cyn bod siâp arna i!  
Roedd hyd fy mywyd wedi ei drefnu —  
pob diwrnod wedi ei gofnodi yn dy lyfr,  
a hynny cyn i un fynd heibio!  
O Dduw, mae dy feddyliau di'n rhy ddwfn i mi;  
mae gormod ohonyn nhw i'w deall!  
Petawn i'n ceisio eu cyfri nhw,  
byddai mwy nag sydd o ronynnau tywod!  
Bob tro dw i'n deffro rwyf ti'n dal yna gyda mi!

## *Emyn 2*

**Clyma ni'n un, Caneuon Ffydd 626**

### **MYFYRDOD**

*(Bydd angen darn o hen ddefnydd arnoch chi ar gyfer y myfyrdod hwn, darn sydd efallai wedi cychwyn rhaflo ar yr ymylon.)*

Yn y cyfnod nesaf hwn o fyfyrdod, yr ydym am ystyried cymhlethdod a rhyfeddod yr hunan drwy ddal darn o hen ddefnydd.

Mae defnydd yn rhywbeth a ddefnyddiwn bob dydd ac a gymerwn yn ganiataol. Mae yna wahanol fathau o ddefnyddiau, yn gotwm, yn wlân, yn sidan, yn hesian, yn neilon. Yn wir y mae tîm o archeolegwyr a paleofiolegwyr wedi darganfod ffibrau llin sy'n fwy na 34,000 mlwydd oed, y ffibrau hynaf y gwyddys eu bod wedi'u

defnyddio gan fodau dynol. Yr un yw'r cysyniad o ddefnydd heddiw – darnau llai wedi eu cyfuno i wneud darn mwy, darn defnyddiol, darn cryfach.

*(Gellid chwarae cerddoriaeth gefndirol o'ch dewis wrth i'r arweinydd lefaru'r geiriau hyn.)*

Gosodwch y darn o ddefnydd yng nghledr eich llaw.

Edrychwch arno. Meddyliwch sut yr oedd y defnydd yn cael ei ddefnyddio cyn iddo ddechrau dirywio a rhaflo.

Ai dilledyn oedd e? Ydych chi'n cofio ei wisgo?

Ai llen oedd e oedd yn cadw'r tywyllwch a'r oerfel allan yn y nos?

Ai tywel oedd e? Yn sychu ac yn cynhesu wedi bod yn y bath neu wedi nofio mewn pwll neu ar draeth.

Ydy'r darn o ddefnydd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer rhywbeth arall ar ôl y defnydd cyntaf?

*(Saib)*

Diolch i Dduw am y defnydd a wnaed o'r darn hwn yn ein llaw.

Diolchwn am yr hyn yr ydym ni wedi gallu ei gyfrannu a sut y mae Duw wedi ein defnyddio ni yn y byd hwn. Gadewch i ni fod yn effro i alwad cyson Duw.

*(Saib)*

Daliwch y darn rhwng eich bawd a'ch bys. Sut deimlad sydd i'r defnydd? Ydy e'n llyfn neu'n arw?

Edrychwch ar y lliw. Ydy'r lliw wedi gwanhau ers pan welsoch y lliwiau am y tro cyntaf?

*(Saib)*

Diolch i Dduw am yr ystod o ddefnyddiau - y rhai sydd yn ein cadw'n gynnes, y rhai sydd yn ein cadw'n oer, y rhai sydd yn ein cadw'n sych a'r rhai sydd yn feddal ac yn ein cysuro. Diolchwn am y nodweddion unigryw sydd gennym wrth i ni gyfrannu yn y byd ac fel mae Duw wedi defnyddio'r nodweddion hynny.

Gadewch i ni gydnabod ein galluoedd a bod yn barod i'w defnyddio trwy nerth Duw.

*(Saib)*

Edrychwch yn fanwl ar wead y defnydd. Tynnwch edefyn, un ar y tro, yn araf, o'r ochr sydd wedi rhaflo. Sawl edefyn sydd yn y darn defnydd hwnnw? Cannoedd? Miloedd? Ystyriwch y gwaith aeth i mewn i greu'r darn hwnnw o'r defnydd. Y gwehyddu, y gwehydd, y peiriant, y peiriannydd i gadw'r peiriant i weithio, y cynllunydd... mae'r rhestr yn hirfaith.

*(Saib)*

Diolch i Dduw am dy eglwys sydd yn dod â ni gyd fel unigolion at ein gilydd, ac i gyflawni ystod o bwrpasau. Diolch i ti am y nerth a gawn oddi wrth ein gilydd, gan ddod â rhannau bychain ynghyd i greu rhywbeth mwy, rhywbeth prydferthach, rhywbeth cryfach. Wrth ddal y defnydd yn fy llaw heddiw, Dduw, caf fy atgoffa o ba mor ddefnyddiol y bu'r darn hwn yn y gorffennol a pha mor ddefnyddiol y gall fod o hyd. Er i'r edafedd fod yn denau ac ysgafn ar ben ei hun, wrth wehyddu'r darnau gyda'i gilydd y mae'n creu cyfanwaith cryf.

*(Saib)*

O’th flaen heddiw, Arglwydd, yr ydym yma bob un yn unigolion, gyda’n nodweddion unigryw ni ein hunain. Pan fyddwn yn fregus, Dduw, rydym yn agored i gael ein hynysu ac i deimlo’n unig. Yn ein gwendid bydd gyda ni, Dad nefol. Gwehydda ni o’r newydd yn glytwaith lliwgar sy’n llawn amrywiaeth!

Daliwch y darn rhwng eich dwy law, a daliwch eich dwylo fel pe baech yn dweud pader. Gweddiwn weddi’r Arglwydd gyda’n gilydd:

Ein Tad, yn y nefoedd,  
sancteiddier dy Enw.  
Deled dy deyrnas.  
Gwneler dy ewyllys,  
ar y Ddaear, fel yn y nef.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein troseddau,  
fel y maddeuwn rhai a droseddwyd yn ein herbyn.  
A phaid a’n dwyn i brawf, ond gwared ni rhag drwg.  
Oherwydd eiddo ti yw’r deyrnas, y nerth a’r gogoniant, am fyth ac  
am fyth.  
Amen.

Yn y Testament Newydd, mae’r hanes am groeshoelio’r Iesu hefyd yn sôn am ddarn o ddefnydd. Am glogyn yr Iesu.

## DARLLENIAD O'R TESTAMENT NEWYDD: Y MILWYR YN GWATWAR IESU

**Mathew 27:27-31 Beibl.net**

Dyma filwyr Rhufeinig yn mynd â Iesu i'r palas (Pencadlys y llywodraethwr), a galw'r holl fintai i gasglu o'i gwmpas. Dyma nhw'n tynnu ei ddillad a rhoi clogyn ysgarlad amdano, plethu drain i wneud coron i'w rhoi ar ei ben, rhoi gwialen yn ei law dde a phenlinio o'i flaen a gwneud hwyl am ei ben. "Eich mawrhydi! Brenin yr Iddewon!" medden nhw. Roedden nhw'n poeri arno, ac yn ei daro ar ei ben dro ar ôl tro gyda'r wialen. Pan oedden nhw wedi blino cael sbort, dyma nhw'n tynnu'r clogyn oddi arno a'i wisgo yn ei ddillad ei hun unwaith eto. Wedyn dyma nhw'n ei arwain allan i gael ei groeshoelio.

Yn y darlleniad hwn y mae pwrpas holl fywyd Iesu yn cael ei wneud yn amlwg yn y modd mwyaf dirdynnol a dilornus. Gwyddom taw bwriad Duw oedd i Iesu ddod i'r byd i ddangos sut yr oedd am i'r byd fod. Byd o heddwch, o oddefgarwch, byd lle nad oedd trais a thlodi, gwatwar a gorthrwm. Model oedd bywyd Iesu, model i ni gyd ei efelychu. Model lle mae cariad yn ben ar bob peth! Cofiw'n fel y mae llythyr Paul at y Corinthiaid yn dweud "Y mae'r tri hyn yn aros: Ffydd, gobaith, cariad. A'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad."

Ac mae'r milwyr, mewn gweithred syml ond symbolaidd, yn gwatwar Iesu drwy osod clogyn brenhinol yr olwg ar ei ysgwyddau. Darn syml o ddefnydd. Ac yna, wedi ei watwar

ymhellach gyda choron ddrain, gwialen ac yna ymgrymu o'i flaen, maent yn tynnu'r clogyn, gan ei adael yn ei ddillad ei hun, yn ddyn, ein Brenin ni.

Clogyn 'sgarlad rhoed ar d'ysgwyddau  
Dy ddilynwyd di yn eu dagrau  
Ond fe dynnwyd y clogyn  
'Ath adael yn dy ddillad dy hun  
Yn ddyn, ein Brenin ni.

Nid yw Duw am i ni fod yn ddim byd ond ni ein hunain. Ond y mae Duw ein hangen ni i fod yn ddefnyddiol ac i fod yn ddisgyblion ac yn efengylwyr ein hoes. Ein tro ni yw bod yn fodolau nawr. Dyma yw ein pwrpas. Ac er mwyn bod y disgyblion gorau y gallwn fod, rhaid i ni dynnu'r clogyn a gadael i holl bethau'r byd fynd o'r neilltu. Dyna sut y mae Duw am ei defnyddio ni.  
Amen

### *Emynn 3*

**A ddoi di i'm dilyn i 806 Caneuon Ffydd**